

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**14 MAI 2018**

**ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG**  
**- I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG**  
**2017 – 2018**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN**  
**TRAFODAETH Â'R AELOD PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y**  
**CYNGHORYDD G. HOPKINS**

**Awduron:** Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg (01443 570002)

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2017-2018 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

**2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;

2.2 Argymell bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2018 fan bellaf.

2.3 Gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

**3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg

(Cymru) 2011, i baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- y safonau darparu gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau llunio polisïau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.2 Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Arweiniodd hyn at y dyddiad gosod ar gyfer cyflawni agweddau 3 safon (52, 58 a 64<sup>1</sup>) ei ohirio tan 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018, felly dydy'r cynnydd yn erbyn y rhain ddim yn rhan o'r adroddiad cydymffurfio hwn. Bydd y cynnydd ar weithredu Safonau 52, 58 a 64 yn cael ei adrodd y flwyddyn nesaf. (Disgwylir y bydd cydymffurfio â hwy yn her sylweddol).
- 4.3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn cwmpasu'r ail flwyddyn lawn o weithredu'r safonau - o 1 Ebrill 2017 i 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Cyngor a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2018, fan bellaf.
- 4.4 Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.
- 4.5. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i adroddiad blynyddol eleni gynnwys y canlynol:

---

<sup>1</sup> Safon 52 - doedd dim gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â gwefannau ac eithrio'r wefan corfforaethol tan 31/3/2018.

Safon 58 - cafodd y gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol ac eithrio prif gyfrif y Cyngor ei symud i 31/3/2018.

Safon 64 - cafodd ardaloedd a ddiffinnir fel 'gwasanaeth derbynfa' (er enghraifft, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden ac ati) ac eithrio prif gwasanethau derbynfa'r Cyngor ei symud i 31/8/18.

- (1) *nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisïau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw*
- (2) *nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw*
- (3) *nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
- (4) *canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
- (5) *nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysu yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.*

## **5. Camau Nesaf**

- 5.1 Os bydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn penderfynu argymhell yr Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i ddsbarthu a bydd cyhoeddusurwydd yn cael ei roi iddo yn unol â Safonau 158, 164 a 170.
- 5.2. Rydyn ni'n rhagweld y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi adborth ar yr adroddiad, ynghyd ag argymhellion, yn ystod yr Hydref.

## **6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## **7. YMGYNGHORI**

Doedd cynnal proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma, er i'r holl feysydd gwasanaeth gyfrannu data at yr adroddiad drwy eu prosesau hunanwerthuso.

## **8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

Does dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

## **9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

## **10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015**

- 10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawsdiriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.
- 10.2 Mae'r Adroddiad Cydymffurfio yn amlinellu gwaith y Cyngor o ran cydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws y sir. Bydd cyflawni'r safonau yn atal cwynion gan drigolion sy'n methu â manteisio ar wasanaethau o du'r Cyngor yn y Gymraeg.
- 10.3 Mae cynnwys yr adroddiad yn perthyn yn uniongyrchol i Nod 6 o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd cydymffurfio â'r Safonau'n gefn i normaleiddio'r Gymraeg a sicrhau na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny.

## **11. CASGLIAD**

Dyma'r trydydd adroddiad monitro blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor sy'n nodi sut mae wedi cydymffurfio â'r Safonau statudol y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â nhw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd da a wnaed gan feysydd gwasanaeth wrth ymgorffori trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith, yn enwedig o ystyried goblygiadau'r safonau ychwanegol (52, 58 a 64).



**RHONDDA CYNON TAF**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

**RHONDDA CYNON TAF**

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg - i'w  
gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg  
2017 – 2018

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion  
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mehefin 2017

# CYNNWYS

Cyflwyniad	tudalen 1
Uned Gwasanaethau Cymraeg	tudalen 3
Cwynion	tudalen 6
Sgiliau Cymraeg Staff	tudalen 10
Hyfforddiant	tudalen 11
Llenwi Swyddi Gwag	tudalen 11
Rhagor o wybodaeth - manylion cyswllt	tudalen 12
Atodiad 1 – Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio	tudalen 13

## **CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg**

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016.

### **Gweledigaeth**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwmo i greu amgylchedd sy'n annog eu trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau yn unol â holl bolisïau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

### **Llywodraethu ac atebolrwydd**

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp traws-bleidiau yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwylio datblygiadau strategol, yn trafod adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, a monitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, mae Gweithgor sy'n cynnwys Prif Swyddogion wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y newidiadau gweithredol gofynnol yn cael eu gwireddu, ynghyd â dull cydweithiol a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

## **Dolenni cyswllt i Bolisiâu a Blaenoriaethau'r Cyngor**

Mae ymrwymiadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn rhan o ddogfennau cynllunio'r awdurdod gan gynnwys Cynllun Gwella 2015, Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chynllun Corfforaethol 2016-2020. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod cenedlaethol. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried y gwasanaethau gofal a chymorth maen nhw'n eu darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

## **Rhoi Adroddiad**

Dyma'n hail flwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Oherwydd yr amrywiadau a gafodd eu cymhwyso i rai o'r Safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn proses apelio, dyw diwrnod gosod rhai o'r Safonau ddim wedi dod i rym hyd yn hyn (Safonau perthnasol: 52, 58, 64) felly mae'r adroddiad yn cwmpasu'r Safonau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.

Caiff yr adroddiad ei gyflwyno ar 30 Mehefin, yn unol â Safonau 158, 164

(ynghyd ag Atodiad 1) ac yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safon Gweithredu
- Safon Llunio Polisiâu

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol, hynny yw:

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg (Safon 151)
- nifer y staff a ddilynodd gyrsiau hyfforddiant os oedd y cyrsiau hynny yn cael eu cynnig yn Gymraeg (Safon 128/152)
- canran y staff a gymerodd ran mewn unrhyw o'r cyrsiau uchod (Safonau 128/152)
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg



unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

- nifer y cwynion a gafodd y Cyngor

## **Uned Gwasanaethau Cymraeg**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg o ystyried y risgiau sydd ynghlwm o beidio â chydymffurfio â nhw a hefyd oherwydd ei ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r cyswllt cyntaf. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 14 (2017/2018) o weithwyr. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- darparu tiwtor Cymraeg mewnol
- nodi meysydd methu â chydymffurfio posibl
- cofnodi cwynion cwsmeriaid
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a Gweithgor y Gymraeg
- hwyluso pwyllgorau staff, e.e. Gweithgor y Gymraeg (Y Gweithgor)
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg yn y gymuned fel sy'n briodol
- cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol a bod yn brif gyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg ac Adrannau Llywodraeth Cymru perthnasol.

Yn sgil ymddeoliad Swyddog yr Iaith Gymraeg yn 16/17, cafodd y Cyngor y cyfle i newid strwythur yr Uned Gwasanaethau Cymraeg ac i ymateb mewn modd rhagweithiol i'r amgylchedd statudol newydd a'r math o waith y mae angen ei wneud i geisio cynorthwyo holl wasanaethau'r Cyngor i fodloni'r Safonau mewn modd mwy cost-effeithiol.

Cafodd swydd Swyddog Cydymffurfio a Monitro ei chreu i fonitro cyflawniad y gwasanaethau ar draws y Cyngor a sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. Yn ogystal â hynny, mae'r swydd yma'n darparu cyngor ar arfer da a gofynion statudol.

Cafodd swydd Tiwtor y Gymraeg ran-amser ei chreu hefyd i drefnu a chyflwyno cyrsiau a sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn talu darparwyr allanol (e.e. Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru) i gyflwyno sesiynau i staff mewnol ond doedd y rhain ddim yn llwyddiannus, hynny yw, doedd dim cynnydd yng ngallu ieithyddol y staff. Hyd yn hyn, mae'r tiwtor mewnol wedi dysgu 175 aelod o staff ar bob lefel. Rydyn ni'n rhagweld y bydd y ffigwr yma'n cynyddu'n sylweddol dros y blynnyddoedd nesaf oherwydd, erbyn hyn, mae disgwyl i staff newydd eu penodi fynychu gwersi Cymraeg sylfaenol yn rhan o'r broses ymsefydlu.

Mae'r swyddi yma hefyd yn denu cyfleoedd masnacheiddio drwy ymestyn y ddarpariaeth i gyrrff eraill y mae'n ofynnol iddyn nhw gydymffurfio â'r Safonau. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys y canlynol:

### **Ymgynghori**

- Archwiliad byr o sefyllfa'r sefydliad mewn perthynas â'r Safonau.
- Hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth o'r safonau / Gwybodaeth sylfaenol - ar gyfer Aelodau Bwrdd, Rheolwyr neu Staff.
- Hyfforddiant Mwy na Geiriau / Cynnig Gweithredol - ar gyfer Aelodau Bwrdd, Rheolwyr neu Staff. Mae hyn yn ymwneud â'r sector gofal/iechyd.
- Paratoi pamffledi: Beth sydd wedi newid, Gosod y Safonau, Cyngor i Reolwyr, Rhwymedigaethau Partneriaid wedi'u comisiynu, Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog - Adnoddau Iaith Gwaith - Brandio Derbynfeydd, Cortynnau Gwddf, Poster

### **Hyfforddiant Iaith Gymraeg**

- Hyfforddiant Iaith Gymraeg Lefel 1 (iaith sylfaenol sy'n benodol i'r lleoliad)
- Hyfforddiant Magu Hyder (ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg eisoes)

### **Cymorth Parhaus**

- Cymorth parhaus yn ôl yr angen drwy e-bost neu dros y ffôn neu
- Gyfres o gyfarfodydd ymgynghori lle gallwn ni roi cyngor wyneb yn wyneb gyda Rheolwyr / Arweinwyr Gwasanaethau ac ati.

Fe barhaon ni i baratoi a dosbarthu dogfennau cyfarwyddyd yn ystod 2017-18, er enghraifft:

### ***Hwyluso Cyfarfodydd Dwyieithog***

Roedd rhai pryderon wedi bod ymhlith y staff a'r Aelodau Etholedig mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, yn bennaf oherwydd bod y ddarpariaeth yn

un newydd ac oherwydd y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ddarparu ar gyfer dwy iaith mewn cyfarfodydd. Bydd y canllawiau yma sydd wedi'u paratoi ar gyfer pawb sy'n ymwneud â hwyluso cyfarfodydd dwyieithog yn helpu i leihau rhai o'r pryderon hynny.

### ***Partneriaid wedi'u comisiynu***

Cafodd y canllaw ei baratoi i esbonio'r hyn mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn ei olygu i bartneriaid sydd wedi'u comisiynu a sut y mae disgwyl i'r partneriaid yma gydymffurfio â Safonau penodol sy'n berthnasol iddyn nhw.

### ***Cynllun Gweithredu***

Yn unol â Safonau 157, 159, 163, 165, 171 mae'r Uned hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau y mae ganddo ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (Atodiad 2)

Gan gryfhau'r berthynas rhwng yr Uned Gwasanaethau Gymraeg a meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor, cytunwyd y byddai pob maes gwasanaeth yn parhau i adrodd am ddatblygiadau perthnasol yn eu Hadroddiadau Hunanwerthuso Blynyddol oherwydd pwysigrwydd y Safonau. Mae'r manylion sydd wedi'u nodi gan bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad 1, yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

Ymwelodd Gwenith Price, sef y Cyfarwyddwr Cydymffurfio a Gorfodi, â'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2017 ar ran Comisiynydd y Gymraeg. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar nifer o faterion, gan gynnwys ein cyflawniad o dan archwiliad Comisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r Adroddiad Sicrwydd 2016-17, 'Hawliau'n Gwreiddio'; ein cyflawniad fel sy'n cael ei adlewyrchu yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 a'n Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Cafodd ymweliadau eraill eu cynnal er mwyn iddyn nhw gael rhagor o fanylion ac fel y gallan nhw helpu a llywio sefydliadau eraill sy'n ceisio cydymffurfio â'r Safonau.

Bu newid yn 2017/18, sef newid lleoliad yr uned. Yn flaenorol, roedd yr uned wedi bod yn rhan o'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes. Erbyn hyn, mae swyddfa'r uned ym Mhencadlys y Cyngor yng Nghwm Clydach. Roedd hyn yn adlewyrchu statws newydd yr iaith Gymraeg a'r angen i staff yr uned weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Llywodraethol a Swyddfa'r Cabinet yn ddyddiol a'r angen i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y Cyngor.

**CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)**

Daeth y cwynion canlynol i law yn ystod 2016/17:

Dyddiad y gŵyn	Natur	Drwy	Deilliant/Ymateb
Gorffennaf 2016	Gwasanaethau Hamdden: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg (CSG130)	<p>Cymeradwyodd y Comisiynydd Gynllun Gweithredu'r Cyngor i wella darpariaeth Gwersi Nofio Cyfrwng Cymraeg ar draws ein bwrdeistref sirol ar 24 Tachwedd 2017. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio trwy'r cynllun gweithredu.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Diweddarau'r wefan Hamdden am Oes fel ei bod hi'n cynnwys tudalen bwrpasol ar gyfer gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cael eu darparu drwy bartneriaeth gydag Urdd Gobaith Cymru.</li> <li>- Cynnal gwersi arbrofol yn ardal Cwm Cynon y Fwrdeistref Sirol.</li> <li>- Sicrhau cysondeb mewn perthynas â'r ddarpariaeth Hamdden am Oes</li> <li>- Cael mynediad trwy Aelodaeth Hamdden am Oes</li> <li>- Ystyried y posibilrwydd o symud y ddarpariaeth o Ysgol Bryncelynnog i Ganolfan Hamdden Llantrisant - yr un cyfleusterau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.</li> </ul>

Rhagfyr 2016	Gwasanaeth pensiwn: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg (CSG174)	<p>Derbyniodd y Cyngor ei Hysbysiad o'r Penderfyniad Terfynol gan y Comisiynydd ar 16 Hydref 2017 yn cadarnhau bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau mewn perthynas ag ymatebion e-bost awtomatig. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r camau gofynnol fel a ganlyn: <b>Safon 1 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) o Fesur yr Iaith Gymraeg</b></p> <p><input type="checkbox"/> Rhaid i'r Cyngor barhau i sicrhau bod negeseuon e-bost sy'n cael eu hanfon yn awtomatig i gydnabod ymholiadau o gyfrif pensiynau@rhondda-cynon-taf.co.uk yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.</p> <p>Amserlen: Cyn pen 28 diwrnod o gyhoeddi penderfyniad terfynol y Comisiynydd</p>
Mehefin 2017	Canolfan Alwadau a Gwasanaethau Adnoddau Dynol: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg (CSG215)	<p>Derbyniodd y Cyngor ei Hysbysiad o'r Penderfyniad Terfynol gan y Comisiynydd ar 11 Ionawr 2018 a oedd yn cadarnhau bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â gwasanaethau ffôn oherwydd gwall dynol. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r camau gofynnol fel a ganlyn:</p> <p><b>Safon 11 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) o Fesur</b></p>

			<p><b>y Gymraeg</b></p> <p><input type="checkbox"/> Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gymryd camau i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael wrth ddelio â galwadau ffôn, os dyna ddymuniad y galwr, yn unol â Safon 11.</p> <p><input type="checkbox"/> Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gymryd camau i sicrhau bod modd parhau i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg ar ôl eu trosglwyddo, os dyna ddymuniad y galwr, yn unol â Safon 11.</p> <p>Amserlen: Cyn pen 28 diwrnod o gyhoeddi penderfyniad terfynol y Comisiynydd</p>
Hydref 2017	Gwasanaeth Pensiynau Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg (CSG270)	<p>Derbyniodd y Cyngor ei Hysbysiad o'r Penderfyniad Arfaethedig gan y Comisiynydd ar 13/03/2018, a gadarnhaodd i'r Cyngor fethu â chydymffurfio â'r safonau mewn perthynas â gohebiaeth a gafodd ei hanfon at sawl derbynnydd. Fydd y Cyngor ddim yn herio'r adroddiad arfaethedig ond yn hytrach, yn ceisio newid yr amserlen sy'n berthnasol i'r cam gofynnol o'r hysbysiad o'r penderfyniad arfaethedig, fel a ganlyn:</p> <p><b>Safon 4 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) o Fesur y Gymraeg.</b></p> <p>Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf adolygu pob</p>

			<p>llythyr safonol mae'n ei anfon at sawl unigolyn er mwyn sicrhau bod fersiwn Cymraeg ar gael.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon at sawl unigolyn yn cael ei hanfon yn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.</p> <p><b>Amserlen:</b> Cyn pen 90 diwrnod o gyhoeddi penderfyniad terfynol y Comisiynydd.</p>
Awst 2017	<p>Gwasanaethau Etholiadol: Honiad o ddefnydd anghywir o'r gair 'Cymraeg' i ddisgrifio cenedligrwydd yn hytrach na'r gair 'Cymreig'.</p>	Aelod o'r cyhoedd	Mae Gwasanaeth Etholiadau'r Cyngor wedi gofyn am ddiweddariad i'r system er mwyn datrys y mater.
Awst 2017	<p>Gwasanaeth Pensiynau: Testun Cymraeg anghywir mewn e-bost oddi wrth y Gwasanaeth Pensiynau.</p>	Aelod o'r cyhoedd	Ers hynny mae Gwasanaeth Pensiynau'r Cyngor wedi defnyddio'r Gwasanaethau'r Gymraeg i gyfieithu'r holl ddeunydd ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys pob darn o 'destun safonol' sy'n cael ei ddefnyddio mewn gohebiaeth.
Awst 2017	<p>Gwasanaethau Gwastraff: Roedd arwyddion casglu sbwriel dros dro yng Nghwm Clydach yn uniaith Saesneg.</p>	Aelod o'r cyhoedd	Cynhaliodd Adran Priffyrdd y Cyngor adolygiad o'u holl arwyddion a sicrhau bod unrhyw hen arwyddion uniaith Saesneg yn cael eu tynnu o'r stoc.
Awst 2017	Gwasanaethau	Aelod o'r	Diweddarodd y Gwasanaethau

	Hamdden: Cyfieithiad anghywir ar y wefan gorfforaethol.	cyhoedd.	Hamdden eu gwefan i gynnwys y fersiwn Cymraeg cywir.
Medi 2017	Adran y Priffyrdd: Honiad bod arwydd ffordd wedi'i osod gyda'r testun Saesneg yn gyntaf.	Aelod o'r cyhoedd	Cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'r ardal dan sylw ond doedd yr un arwydd yn torri'r safonau. Cysylltodd y Cyngor â'r cwsmer eto er mwyn canfod yr union leoliad. Dim ymateb gan y cwsmer.
Hydref 2017	Gwasanaethau Gwastraff: Neges e-bost yn Saesneg mewn ymateb i neges e- bost yn Gymraeg.	Cynghorydd Bwrdeistref Sirol	Cafodd holl staff y Cyngor ac Aelodau o'r Cyngor eu hatgoffa fod angen ymateb yn yr iaith sy'n well gan y derbynnydd (neu'r iaith sydd wedi'i defnyddio gan y derbynnydd).
Tachwedd 2017	Adran Cynllunio Neges e-bost uniaith Saesneg.	Cynghorydd Bwrdeistref Sirol	Mae'r Cyngor wedi cyfieithu templed e-bost ar gyfer pob dosbarthiad yn y dyfodol.
Mawrth 2018	Carfan Parcio: Cynnwys y wefan ddim ar gael yn Gymraeg.	Aelod o'r cyhoedd	Diweddarodd Carfan y We, ar y cyd â'r Garfan Parcio, gynnwys y wefan i sicrhau bod yr holl ddolenni cyswllt a gwybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## SGILIAU CYMRAEG Y STAFF: SAFON 170(2)(a)

Mae'r rhan yma'n nodi'n fras nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2016 - 2017 (Ebrill 2017). Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.



Staff*	Math o staff	Dim sgiliau**	%	Rhugl	%
7061	Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion	4730	66.99 %	402	5.69% (3.68% yn 17/18 yn seiliedig ar 6,421 o staff)

\*Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr - mae'n cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, mae un gweithiwr wedi'i gyfrif ar gyfer pob swydd sydd gydag ef. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd.

\*\*Mae ffigwr hefyd yn cynnwys staff sydd heb ymateb i'r holiadur eto.

Staff*	Math o staff	Dim sgiliau**	%	Cymraeg Lefel 1	%
7061	Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion	4730	66.99 %	1562	22.12%

\*Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr - mae'n cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, mae un gweithiwr wedi'i gyfrif ar gyfer pob swydd sydd gydag ef. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd.

## HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2) b+c

Does dim newid wedi bod ers y sefyllfa yn 2016-17 o ran hyfforddiant ar gyfer Recriwtio a Hysbysebu, Rheoli Cyflawniad, Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu, Ymsefydlu, Delio â'r Cyhoedd ac Iechyd a Diogelwch, yn seiliedig ar y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â Safon 152 sy'n seiliedig ar ofynion Safon 128.

## LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)

Rhwng 2016 a 2107, cafodd y swyddi canlynol eu hysbysebu, a chafodd ei nodi bod angen sgiliau Cymraeg ar eu cyfer. Mae'r ffigyrau yn cael eu cadw yn unol â Safon 154 yn seiliedig ar ofynion Safon 136. Ers Medi 2017, mae'n hanfodol bod pob swydd newydd yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 (Cymraeg sylfaenol) gydag opsiynau i reolwyr recriwtio ar lefel 2 i lefel 5 gan ddibynnu ar y swydd.

Sgiliau Cymraeg	Gofynnol	11
Sgiliau Cymraeg	Ddim yn ofynnol	34
Sgiliau Cymraeg	Dymunol	236
Sgiliau Cymraeg	Hanfodol	7

**Rhagor o wybodaeth:**

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pafiliwn A

Cwm Clydach

Tonypandy

Rhondda Cynon Taf

CF40 2XX

Ffôn: 01443 570001

## Atodiad 1

### Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio

Mae'r canlynol yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau perthnasol yn ystod 16/17 yn seiliedig ar Hunanarfarniadau'r Gwasanaethau unigol

### Cymunedau a Ffyniant

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Rhaglenni Trechu Tlodi. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae staff Cymunedau a Ffyniant yn parhau i fynychu gweithgor, ac i gyfrannu'n weithredol tuag ato. Cafodd y gweithgor yma ei sefydlu i sicrhau bod y Safonau yn cael eu gweithredu mewn modd effeithiol ar draws y rhaglenni amrywiol. Mae'r gweithgor wedi paratoi cynllun gweithredu, ac mae dau Swyddog Graddedig a fynychodd y gweithgor wedi paratoi adroddiad manwl ar gyfer uwch reolwyr ar y cynnydd sydd wedi'i wneud.
- Yn ddiweddar, mae'r gweithgor wedi paratoi llyfryn, sef 'Cymraeg: Beth sydd wedi newid?' er mwyn mynd ati yn rhagweithiol i gefnogi partneriaid sector gwirfoddol a rhai sydd wedi'u comisiynu, gan roi canllaw cynhwysfawr a chllir iddyn nhw o ran y Safonau sydd eisiau iddyn nhw lynu atyn nhw pan fyddan nhw'n darparu gwasanaethau ar ran y Gwasanaeth Cymunedau a Ffyniant.
- Yn dilyn yr archwiliad o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr a gafodd ei gynnal y llynedd, mae dosbarthiadau Cymraeg yn y Gweithle wedi cael eu darparu ar gyfer y staff.
- Cafodd Menter Iaith RhCT ei chomisiynu i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer partneriaid sector gwirfoddol wedi'u comisiynu.
- Mae ffurflen dewis iaith ddwyieithog wedi cael ei pharatoi er mwyn pennu iaith o ddewis cyfranogwyr.
- Yn unol â thelerau ac amodau eu contractau, mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau gydymffurfio â'r Safonau newydd. Mae modd i bob asiantaeth Camddefnyddio Sylweddau ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Garfan Comisiynu hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg a chydweithwyr Caffael i sicrhau y bydd pob tendr a chontract ar draws y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion newydd yn y dyfodol, a bod y darparwyr yn gwbl effro i'w cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Safonau.

## **Gwasanaeth Tai Cymunedol**

Yn y gwasanaeth yma, mae 5 o siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae dau aelod o staff yn dysgu Cymraeg hefyd. Maen nhw wedi cael amser allan o'r swyddfa i fynd i ddsbarthiadau Cymraeg ac mae'r gwasanaeth wedi ariannu hynny.

Rydyn ni wedi sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â gofynion Safonau'r Gymraeg mewn cyfarfodydd carfan ac maen nhw wedi cael eu cyfeirio at yr hyfforddiant sydd ar gael drwy'r fewnrwyd. Mae Arweinwyr Carfan wedi cael eu cyfarwyddo i sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaethau yn cael eu cyfieithu. Serch hynny, mae hon yn dasg barhaus a fydd yn cymryd tipyn o amser i'w chwblhau oherwydd nifer y dogfennau ac argaeledd y gwasanaethau cyfieithu. Lle mae swyddogion yn hyderus i gyfieithu dogfennau eu hunain, mae hyn yn cael ei wneud o fewn y gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, rydyn ni wrthi'n ceisio dod o hyd i ffordd o ddarparu'r wefan Homefinder (ynghyd â ffurflen gais) yn Gymraeg. Rydyn ni'n ymgymryd â'r prosiect yma ar y cyd â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg a TGCh.

Mae'r holl staff yn ateb y ffôn yn Gymraeg ac yn siarad Cymraeg yn aml yn y swyddfa ac mae hynny'n cael ei annog. Mae trefniadau cadarnhaol wedi cael eu datblygu yn Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor o ran cyfieithu dogfennau a chefnogi prosiectau mwy cymhleth megis cyfieithu gwefan Homefinder y Cyngor a meddalwedd.

## **Hamdden, Parciau a Phrofedigaethau**

### **Gwasanaethau Hamdden**

Mae holl wybodaeth gyhoeddusrwydd y canolfannau hamdden, boed ar-lein, ar Facebook neu'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos, yn ddwyieithog, yn unol â'r safonau cyfredol.

Mae arwyddion y Canolfannau Hamdden yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd, un safle ar y tro, i sicrhau eu bod nhw'n bodloni'r safonau cyfredol.

Mae dogfennau tendro ar gyfer unrhyw offer a/neu wasanaeth yn cynnwys adran lawn sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae gan yr Ap Hamdden am Oes presennol fersiwn Cymraeg cyfatebol.

Derbyniodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru hysbysiad o beidio â chydymffurfio mewn perthynas â gwersi nofio.

### **Parciau a Chefn Gwlad**

Mae holl wybodaeth gyhoedduswydd y parciau, cefn gwlad ac ardaloedd chwarae yn ddwyieithog ac yn dilyn y safonau cyfredol.

### **Gwasanaethau Profedigaethau**

Mae pob aelod o staff rheng flaen wedi ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg sylfaenol.

Mae'n ofynnol i staff newydd ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.

Mae ceisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn cael eu cofnodi a'u darparu.

### **Gwasanaethau Cofrestru**

Mae pob aelod o staff rheng flaen wedi ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg sylfaenol ac mae'n ofynnol i staff newydd ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynnal seremonïau priodas a sifil yn Gymraeg hefyd.

Yn dilyn colli aelod o staff rhugl yng Nghymru, bydd recriwtio'n canolbwyntio ar benodi aelod staff arall sy'n rhugl yn 2018/19.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y Gymraeg ym mhob ystyriaeth, ac mae'r system ffôn wedi'i diweddarau ar gyfer cyhoeddiadau dwyieithog.

### **Atyniadau i Ymwelwyr a'r Gwasanaeth Treftadaeth**

Mae'r holl wybodaeth farchnata a chyhoedduswydd ymhob un o'r atyniadau i ymwelwyr (gan gynnwys deunydd sydd wedi'i argraffu, arwyddion, cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth sy'n cael ei harddangos) yn cael eu paratoi yn ddwyieithog, yn unol â'r safonau cyfredol.

Mae dogfennau tendro ar gyfer unrhyw offer a/neu wasanaeth yn cynnwys adran lawn sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae gwefannau Lido Ponty a Thaith Pyllau Glo Cymru yn ddwyieithog, ac yn ogystal â hynny, mae gwefan Cwm Dâr wedi cael ei hailgreu'n ddwyieithog.

Mae pob aelod parhaol o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.

## **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae pob aelod o staff yn gwybod am y gofynion o ran yr iaith Gymraeg a sut bydd hyn yn effeithio ar ei faes gwasanaeth. Mae gwasanaethau rheng flaen sy'n ymdrin yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud gyda siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r gwasanaeth i ymdrin ag ymholiadau o'r fath yn ôl yr angen. Mae defnyddwyr gwasanaeth sydd yn dewis cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu nodi yn system SWIFT.

Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant fydd yn eu galluogi i ddysgu Cymraeg. Mae gwybodaeth berthnasol wedi cael ei rhoi i reolwyr mewn cyfarfodydd ac maen nhw wedi ymgymryd â modiwlau e-ddysgu mewn perthynas â mesurau'r Gymraeg. Mae gwybodaeth berthnasol ac unrhyw ddiweddariadau wedi cael eu rhoi i'r staff mewn cyfarfodydd carfan.

- Mae gwefan Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf a gwefan Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddwyieithog.
- Gohebiaeth am Blant sy'n Derbyn Gofal ac Amddiffyn Plant ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.
- Mae'r holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog.

Mae pob cyhoeddiad, gan gynnwys rhaglenni hyfforddiant, yn ddwyieithog.

Mae Cymraeg lefel sylfaenol yn cael ei chyflwyno drwy raglen ymsefydlu generig gofal cymdeithasol ac mae'r Cynnig Gweithredol yn edefyn euraidd drwy'r rhaglen 5 diwrnod.

Mae cynlluniau ar waith i hwyluso nifer o gyrsiau Cymraeg ond mae'r galw am yr hyfforddiant yma'n isel ar draws y sector ar hyn o bryd. Mae gwaith yn cael ei wneud gydag uwch reolwyr a darparwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cyrsiau a'r gofynion o fewn safonau'r Gymraeg

Mae'r garfan yn parhau i gynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo gofyn amdano - mae hyfforddiant diogelu dwyieithog i Aelodau yn enghraifft o hyn.

### ***Carfan Prynu a Chomisiynu (Oedolion)***

- Mae'r fframwaith monitro contractau yn cadw gwylidwraeth gyson ar bob darparwr i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â Mesur y Gymraeg / Safonau'r Gymraeg.
- Mae gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i bob gweithiwr, ac mae hyn yn cael ei hysbysebu trwy gylchlythyrau e-bost.

### ***Gwasanaeth Gwella Gwasanaethau a Hawliau Lles***

Mae gwasanaethau rheng flaen sy'n ymdrin yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg a lle mae'n well gan ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg, mae hyn yn cael ei nodi ar system SWIFT (Mae WCCIS sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cael ei datblygu i adlewyrchu'r gofynion iaith Gymraeg sy'n cael eu nodi yn system SWIFT ar hyn o bryd).

Mae ein holl ddeunydd ar gyfer y cyhoedd sy'n ymwneud â chwynion ar gael yn Gymraeg ac mae'r staff yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae modd cynnal achosion drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo angen.

## **Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch y Gymuned**

- Mae'r holl daflenni gwybodaeth / hysbysebion sy'n cael eu paratoi gan yr adran, i gyd yn ddwyieithog erbyn hyn.
- Mae'r holl gyhoeddiadau a chanllawiau sy'n cael eu hanfon i fusnesau yn ddwyieithog.
- Mae archwiliadau dwyieithog wedi cael eu cynnal mewn adeiladau yn yr awdurdod. Mae disgwyl i siaradwr Cymraeg ymgymryd â hyfforddiant Blaen Archwilydd Bwyd ym mis Tachwedd, ac ar ôl hynny, bydd modd cynnal archwiliad o'r adeilad drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r Pennaeth Gwasanaeth, nifer o staff sydd â chymwysterau proffesiynol a staff cymorth, yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac maen nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith.

## **Gofal i Gwsmeriaid**

Mae'r swyddfa flaen sengl gydgysylltiedig yn ei gwneud hi'n haws i'r sefydliad fodloni safonau'r iaith Gymraeg trwy gynnig cyfartal o'r cychwyn cyntaf drwy ddefnyddio prosesau awtomataidd neu ymgynghorwyr.

Mae'r holl sianeli yn cynnig gwasanaeth Cymraeg a Saesneg cyfartal o'r cychwyn cyntaf.

- Mae yna wefan ddwyieithog sydd â rhagdudalen - mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog ar gyfer gwybodaeth a thrafodion.
- Mae rhifau ffôn cyhoeddedig y ganolfan alwadau yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg o wasgu rhif 1.
- Mae apwyntiadau iBobUn yn cael eu cynnig a'u cynnal yn Gymraeg.
- Cafodd un gŵyn gan y Comisiynydd ei hymchwilio ond roedd hi'n ymwneud â chamgymeriad gan ymgynghorydd - roedd modd i'r Cyngor ddangos tystiolaeth o'i gydymffurfiaeth gyffredinol â'r safon.

- Nododd Carfan y We amrywiaeth o brosesau ar-lein cyn i'r safon ddod i rym a chafodd pob un ei chyfieithu.
- Mae'r Safonau Iaith yn enghraifft o sut y gall proses gyfuno gefnogi'n well na, er enghraifft, dderbynfeydd/switsfyrddau di-drefn ac ati.
- Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan yng Ngweithgor y Swyddogion.

## **Gofal y Strydoedd a Gwastraff**

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iaith o ran dogfennau polisi, gohebiaeth a chyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Mae llythyrau, taflenni a phosteri safonol yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ar ein gwefan yn ddwyieithog ac ers y cyfarfod diwethaf, rydyn ni wedi edrych ar ein tudalennau gwe i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei rhoi.

Hyd yma, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gwynion gan y Comisiynydd a dim ond 2 ymholiad unigol rydyn ni wedi gorfod delio â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg ers yr asesiad diwethaf. Cynorthwyodd cydweithwyr o'r gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid ni yn ystod y broses yma.

Rydyn ni'n hysbysu staff newydd o'n gofynion gwasanaeth o dan Fesur yr Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Ers yr asesiad diwethaf, rydyn ni wedi parhau i adnabod ac annog staff sy'n awyddus i gael hyfforddiant gloywi neu sydd am ddechrau cwrs Gymraeg llafar i ddechreuwr. Rydyn ni wedi diweddarau ein ffeiliau hyfforddiant gan nodi pa aelodau o staff yn y gwasanaeth sy'n rhugl ac yn rhannol rugl wrth sgwrsio yn Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant ac yn sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn gyfarwydd â pholisïau'r Cyngor. Er mwyn sicrhau parhad o ran darparu gwasanaethau, mae dulliau amgen o gyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu hystyried, er enghraifft, hyfforddiant bore bach ar gyfer gweithredwyr gwastraff a glanhau mewn depos.

## **Trafnidiaeth**

Mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth wedi ehangu'r gwasanaethau mae'n eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Iaith newydd. Rydyn ni wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth



ddarparu gwasanaethau. Mae tri aelod o staff yn y gwasanaeth â meistrolaeth resymol ar y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac mae un arall yn dysgu'r iaith.

Rydyn ni'n gwahodd rhieni i gyfathrebu â'r Gwasanaeth yn Gymraeg yn rhan o'r broses derbyn ac rydyn ni'n cadw cofnodion. Cafodd y gwasanaeth ei ganmol yn Gymraeg drwy Wasanaeth Adborth y Cyngor ynglŷn â'r ffordd y deliodd y Gwasanaeth â sefyllfa lle roedd rhiant yn hwyr yn cwrdd â'i blentyn o'r bws ysgol. Mae dogfennau polisi wastad wedi cael eu darparu yn ddwyieithog. Mae amserlenni bws ochr y ffordd yn ddwyieithog, ynghyd â'r holl ddeunydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau'r gwasanaeth ar wefan y Cyngor. Serch hynny, yn wahanol i 2016 pan ymatebon ni i 6 chais am wybodaeth yn Gymraeg, yn ystod 2017, dydy'r gwasanaeth ddim wedi cael unrhyw ohebiaeth neu alwadau ffôn gan gwsmeriaid a oedd yn dymuno gohebu yn Gymraeg. Er hynny, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gwynion ynglŷn â defnydd y gwasanaeth o'r iaith Gymraeg.

## **Gwasanaethau'r Celfyddydau**

Mae pamffled ein theatrau erbyn hyn yn ddwyieithog ac mae ein gwefan ddwyieithog ar gael hefyd. Mae ein holl ddeunydd marchnata yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth wedi paratoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n cydnabod mai ym Mhontypridd y mae'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg ond bod yr iaith yn tyfu yn ardaloedd Aberdâr a Threorci. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda Garth Olwg ar raglenni Cymraeg a byddwn ni'n llwyfannu fersiwn Cymraeg wedi'i gynhyrchu ar y cyd o 'Miss Julie' yn y Colisëwm yn rhan o'r rhaglen 80 oed yn ystod 2018/19. Bydd y cynhyrchiad yma'n mynd ar daith o gwmpas Cymru.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg gyda'i raglen o ddigwyddiadau Cymraeg proffesiynol ac rydyn ni'n ystyried datblygu rhaglen iaith Gymraeg yn y theatrau.

Mae'r staff hynny o fewn y gwasanaeth sy'n dysgu Cymraeg wedi parhau i wneud hynny, ac mae rhagor o aelodau o staff wedi ymrwmo i ddysgu Cymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

## **Adnoddau Dynol**

Mae'r Uned Gwasanaethau Iaith Gymraeg wedi archwilio Adnoddau Dynol yn ddiweddar ac mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i sicrhau cydymffurfio â'r Safonau.

Mae holl bolisiâu Iechyd a Diogelwch wedi cael eu hanfon i'r Uned Gwasanaethau Iaith Gymraeg i gael eu cyfieithu.

Rydyn ni wedi adolygu pob polisi Adnoddau Dynol gan dalu sylw at yr iaith Gymraeg a'r Safonau sy'n ymwneud â derbyn llythyrau a nodiadau a chynnal prosesau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydyn ni'n parhau i adolygu a diweddarau gwybodaeth ynglŷn â gallu pob aelod o staff o ran y Gymraeg ac rydyn ni wedi datblygu modd i gofnodi hyn ar ffeiliau personol. Rydyn ni wedi cwblhau'r archwiliad sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer staff Gwasanaethau Cyflogaeth ac mae 6 aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant iaith sylfaenol. Mae 8 aelod arall bellach yn dilyn cwrs canolradd 32 wythnos.

Mae Cymraeg Lefel 1 yn hanfodol ar gyfer pob swydd newydd erbyn hyn; dyma benderfyniad a wnaed gan yr adran er mwyn cyflawni un o'i hamcanion allweddol yn y strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd.

Yn ddiweddar, mae'r garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi penodi Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn gwella'r gallu i gynnig hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg yn sylweddol.

## **Twristiaeth ac Achlysuron**

Mae'r gwasanaethau Twristiaeth ac Achlysuron yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau ac yn sicrhau bod yr holl waith dylunio yn cael ei wneud gan wasanaeth Dylunio RhCT. Mae'r gwasanaeth yma wedyn yn gweithio gyda'r uned cyfieithu i sicrhau bod popeth yn gywir ac yn ddigonol.

Mae holl staff y ddau wasanaeth wedi dilyn cwrs cyflwyniad i'r iaith Gymraeg ers SSE 2016, ac mae hyn wedi rhoi hyder iddyn nhw i ateb y ffôn a chynnal gweithrediadau sylfaenol yn ddwyieithog.

Yn groes i SSE 2016, does dim un o'r gwasanaethau yma wedi cael unrhyw gwynion ers Tachwedd 2016 o ran darpariaeth Gymraeg.

## **Twristiaeth**

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn ddwyieithog bob amser, oni bai nad yw'r amgylchiadau yn gofyn am hyn ac mae caniatâd wedi cael ei geisio gan y Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

## **Achlysuron**

Ers SSE 2016, rydyn ni wedi cyflogi sawl Cynorthwy-ydd Achlysuron Achlysurol ychwanegol, ac o'r rhain, mae tri yn siarad Cymraeg.

## **Addysg i Oedolion**

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i geisio cynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyrsiau newydd wedi cael eu cyflwyno yn 2016/17 gan gynnwys dosbarthiadau Ukulele. Mae cyfanswm o 20 o gyrsiau addysg i oedolion iaith Gymraeg wedi cael eu cynnal yn ystod 2016/17. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi parhau i weithio gyda Chymraeg i Oedolion i ddarparu cyfres o gyrsiau sy'n anelu at helpu dysgwyr i symud o gyrsiau Cymraeg i Oedolion i gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae dysgwyr wedi cael eu hintegreiddio i rai o'r cyrsiau prif ffrwd sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi elwa ar ymdrechion Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg i gynyddu ei gronfa ddata o siaradwyr Cymraeg gan sicrhau ei bod hi'n haws targedu siaradwyr Cymraeg wrth roi gwybod am achlysuron a chyrtsiau penodol.

Er hynny, mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar Ganolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg ac mae hi wedi bod yn anodd iawn ehangu'r ddarpariaeth yma i ardaloedd eraill y sir. Mae'r ffaith bod y Ganolfan ynghlwm wrth ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ardal o'r sir lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg wedi helpu i wneud cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ddeniadol ac yn hyfyw. Mae angen gweithio gyda phartneriaid ar y Fforwm Iaith Gymraeg i geisio ehangu hyn i ardaloedd eraill yng ngogledd y sir. O ran y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yng Nghanolfan Garth Olwg, mae tystiolaeth (er enghraifft, ymrestriadau dysgwyr) yn dangos bod y ddarpariaeth yn ateb y galw.

Mae'r gwasanaeth Addysg i Oedolion hefyd wedi cefnogi 3 aelod o staff i ymrestru ar gyrsiau Cymraeg. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at allu'r aelodau hynny o staff i ddefnyddio'u Cymraeg gyda dysgwyr o fewn y gwasanaeth a darparu deunyddiau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyrsiau Sgiliau Hanfodol.

Mae'r gwasanaeth wedi darparu cynrychiolaeth ar fforwm Cymraeg RhCT ac mae hynny yn ei dro wedi hwyluso datblygiad cyfleoedd newydd trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Mae hefyd wedi hwyluso hyfforddiant yn y gweithle ar gyfer sefydliadau megis Meithrinfeydd Lleol yng Nghymru a staff Menter Iaith.

Mae'r gwasanaeth wedi chwarae rhan annatod wrth ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd Dysgu i Oedolion yn rhan o'r ŵyl iaith Gymraeg, Parti Ponty. Eleni, bu'r gwasanaeth yn arwain ar ariannu a threfnu'r ddarpariaeth Addysg i Oedolion a oedd yn cynnwys sgysiau gan 2 enillydd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg yn parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd diwylliannol yn y Ganolfan gan gynnwys cynrychiadau theatr, gweithdai a pherfformiadau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Staff Addysg sydd ddim gweithio yn yr ysgolion**

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i ofynion safonau'r Gymraeg, gyda'r holl ddeunydd ysgrifenedig ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth a cheisiadau ar-lein, yn ddwyieithog erbyn hyn. Mae'r holl gynnwys ar wefan Wicid, gan gynnwys eitemau hanesyddol, bellach ar gael yn ddwyieithog.

Caiff sgiliau iaith eu cryfhau trwy recriwtio lle bo modd. Wrth ymgysylltu â gwasanaethau, gofynnir i deuluoedd bob amser am eu dewis iaith ac mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i weithio gyda theuluoedd unigol.

## **Gwasanaeth y Llyfrgelloedd**

Fel sydd wedi'i grybwyll uchod, mae'r Gwasanaeth erbyn hyn yn bodloni'r gwariant canrannol gofynnol ar ddeunyddiau Cymraeg, fel sydd wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru.

Mae dangosydd penodol ar gyfer y gwasanaeth y mae'n ofynnol iddo ei fodloni yn unol â'r Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a gafodd ei datblygu mewn ymateb i adborth y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Y nod yw cynyddu nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifainc mewn llyfrgelloedd ac mae'r gwasanaeth ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.

Mae'r llyfrgelloedd yn darparu:

- Dosbarthiadau Cymraeg
- Clybiau Llyfrau cyfrwng Cymraeg
- Cylchoedd rhieni a phlantos bach cyfrwng Cymraeg
- Cymraeg i Blant
- Sesiynau ysgrifennu creadigol yn Gymraeg drwy weithio mewn partneriaeth
- Gwaith gyda phartneriaid megis Cyngor Celfyddydau Cymru i hyrwyddo gweithgareddau fel Bardd Plant Cymru

Bu cynnydd yn y gwaith o ddarparu a / neu hwyluso gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u trefnu gan y gwasanaeth, gan gynnwys:

- Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru, a ddaeth i lansiad Wythnos Genedlaethol Dechrau Da ym mis Mehefin ac a ddarllenodd i'r plant yn y Cylch Meithrin yn Aberdâr ac i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain - Mehefin 2017
- Dychmygwch! - Roald Dahl, sef sioe sydd wedi ei hariannu gan Gyngor Llyfrau Cymru. Perfformiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn Llyfrgell Abercynon a Llyfrgell y Porth gyda disgyblion o Ysgol Gymraeg Abercynon, Ysgol Gynradd Gymuned Abercynon; Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn, Ysgol Iau'r Porth. Cyfanswm o 228 o blant a 12 oedolyn.
- Gŵyl Llenyddiaeth Garth Olwg Hydref 2016 - crefftau, helpa drysor a gweithgareddau yn Llyfrgell Pentre'r Eglwys. Nifer yr ymwelwyr - 400.

Canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn y gwasanaeth yw 18%. Serch hynny, oherwydd nifer y lleoliadau, dydy hynny ddim yn ddigon i sicrhau y gall cwsmeriaid gael gwasanaeth iaith Gymraeg ym mhob llyfrgell maen nhw'n mynd iddyn nhw. Mae'r holl staff yn gwybod pwy yw'r siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth a byddan nhw'n cynnig mynediad i siaradwr Cymraeg i gwsmeriaid dros y ffôn os ydyn nhw am drafod eu hymholiadau yn Gymraeg. Mae'r holl staff yn cwrdd â gofynion y safonau o ran ateb y ffôn ac ati yn ddwyieithog. Mae rhagor o hyfforddiant Cymraeg yn cael ei gynnig i staff i wella'u sgiliau oherwydd nad yw recriwtio siaradwyr Cymraeg yn opsiwn ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau ariannol.

Mae'r holl ddogfennau a phosteri cyhoeddus sy'n cael eu paratoi yn uniongyrchol gan y gwasanaeth, yn cydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg y Cyngor, ac yn benodol, yn cydymffurfio â'r rheoliadau statudol o dan Safonau'r Iaith Gymraeg a gafodd eu cyflwyno yn 2015. Mae posterï a thafleuni byr erbyn hyn yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn fewnol ac mae dogfennau hwy yn cael eu hanfon at y Garfan Cyfieithu.

Mae tudalen Facebook Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn cael ei diweddarau'n ddwyieithog ac mae ffocws penodol yn cael ei roi ar ddeunydd iaith Gymraeg newydd pan fo'n briodol.